LEWELLIN, LLEWELYN (1798 - 1878), clerigwr

Enw: Llewelyn Lewellin
Dyddiad geni: 1798
Dyddiad marw: 1878
Rhiant: Maria Lewellin (née Jones)
Rhiant: Richard Lewellin
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd 3 Awst 1798, trydydd mab Richard Lewellin, Tremains, Coety, ger Penybont-ar-Ogwr, Morgannwg, a'i wraig (merch i David Jones, Llan-gan). Addysgwyd ef yn ysgol ramadeg y Bont-faen a Choleg Iesu, Rhydychen; cafodd anrhydedd yn y dosbarth blaenaf yn yr arholiad terfynol yn y clasuron, a graddio'n B.A. yn 1822, M.A. yn 1824, B.C.L. yn 1827, a D.C.L. yn 1829. Cafodd urddau diacon yn 1822 ac offeiriad yn 1823, ar law esgob Rhydychen, ac yn 1826 derbyniodd swydd prifathro ysgol ramadeg Bruton yng Ngwlad yr Haf. Eithr yn lle mynd yno aeth i Goleg Dewi Sant, Llanbedr-Pont-Steffan, fel ei brifathro cyntaf, yn 1827, a bu yno hyd ei farwolaeth, 25 Tachwedd 1878. Bu hefyd yn ficer Llanbedr Pont Steffan (o 1843) ac yn ddeon Tyddewi (o 1843). Claddwyd ef yn Llanbedr Pont Steffan.

Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

Ffynonellau

Foster, *Alumni Oxonienses*

J. Vyrnwy Morgan, *Welsh Political and Educational Leaders in the Victorian Era* (1908), 1908

A. O. Evans, *A Chapter in the History of the Welsh Book of Common Prayer; or, the letters which were written preparatory to the revised edition of 1841. Annotated, with biographical sketches* (Bangor 1922), iii, 306

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Llewelyn Lewellin

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q6662107

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu